**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-416
Ein cyf/Our ref EH/02831/15

William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

2 Gorffennaf 2015

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin yn amgáu sylwadau pellach y deisebwyr ynghylch y gwasanaethau rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De.

Mae patrwm y gwasanaethau cymudo ar gyfer Ggoledd Cymru wedi'u cyfeirio tuag at deithio i'r dwyrain yn y bore a'r gorllewin yn y nos, gan adlewyrchu'r galw gan deithwyr. Wedi dweud hynny, mae opsiynau ar gael i deithwyr gymudo yn y ddau gyfeiriad.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ychwanegol a chapasiti ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cynnwys manteision i gymudwyr. Mae Network Rail i gwlbhau'r cynllun Lleihau Hyd Teithiau o'r Gogledd i'r De eleni, fydd yn galluogi pobl i deithio'n gynt rhwng Caerdydd a Gogledd Cymru.

Bu nifer o welliannau i'r amserlen yn ddiweddar, sydd hefyd wedi gwella capasiti cyffredinol y trenau yng Ngogledd Cymru. O ran y capasiti ychwanegol sydd wedi'i ddarparu o ganlyniad i gyflwyno gwasanaethau tynnu trenau, nid yw hyn wedi'i gyfyngu i'r gwasanaethau hynny yn unig, ond mae hefyd wedi caniatâu i drenau hirach gael eu defnyddio ar y pedwar ar ddeg gwasanaeth arall oherwydd i stoc arall ddod ar gael.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rwy'n deall y bydd y rhanddeiliaid am wella mwy ar y gwasanaethau hyn. Byddaf yn parhau i'w hystyried, ond wrth gwrs bydd yn rhaid cofio cyfyngiadau cyllido, ac yn gynyddol y prinder o drenau addas sydd ar gael.

Rydym yn cysylltu â grwpiau defnyddwyr y rheilffordd ar hyn o bryd ynghylch eu barn ar welliannau pellach, yn enwedig o ran nodi masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau a moderneiddio rhwydwaith Gogledd Cymru.

Edwina Hart